**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 17 HYDREF 2025 TRWY MS TEAMS (11:00 – 11:30)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** David Carr (Rheolwr Cyllid)

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol) a Bethan Price (Aelod).

1.2 Nodwyd bod Cylch Gwaith y Pwyllgor yn mynnu bod 3 aelod yn bresennol, yr oedd yn ofynnol i un ohonynt fod yn aelod annibynnol, er mwyn cael cworwm mewn cyfarfod. Cadarnhawyd bod cworwm yn y cyfarfod presennol.

## 2. Datganiadau Buddiannau

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 3. Cyfrifon Blynyddol 2024-25 a'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol.

3.1 Adroddodd Julie Rees fod y cyfrifon wedi cael eu derbyn yn brydlon a bod yr archwiliad wedi'i gwblhau Bellach, i raddau helaeth. Bu oedi sylweddol cyn cwblhau'r archwiliad o ganlyniad i anhawster cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â thaliadau cyfalaf yn ymwneud â les llety newydd Parc Cathays.

3.2 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon na materion o bwys yn codi o'r archwiliad. Roedd pum camddatganiad wedi'u cywiro yn y cyfrifon, sef:

- Symudwyd £256k o werth Ased Hawl i Ddefnyddio i gostau refeniw llety nad yw'n gysylltiedig â les i gyfrif am y ffaith yr amlygwyd nad yw taliadau gwasanaeth les yn dod o fewn cwmpas IFRS 16.
- £96k o gostau llety yn gysylltiedig ag adeiladu'r ystafell gyfarfod wedi'i ddileu o wariant refeniw a'i gyfalafu.
- Darpariaeth ddadfeiliad o £19k ar gyfer les llety Parc Cathays wedi'i ychwanegu at y cyfrifon.
- Ailddyrannwyd £9.7k a oedd wedi'i ddosbarthu'n anghywir fel costau rhentu les yn y gwariant gweithredu i'r dosbarthiad cywir, sef costau llety.
- £4k i gywiro gwall rhifyddeg yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

3.3 Gwnaed sawl mân addasiad archwilio i'r cyfrifon hefyd, i wella eglurder a darparu gwybodaeth ychwanegol.

3.4 Gwnaed dau argymhelliad archwilio yn yr adroddiad, sef y dylai'r Comisiwn gysoni costau'r gyflogres a gofnodwyd ar Sage i gyfriflenni banc misol, ac y dylai'r Comisiwn gofnodi costau les IFRS 16 wedi'u cyfalafu ar ei gofrestr asedau sefydlog a chynnal rhestr amorteiddio atebolrwydd les i fesur atebolrwydd les yn gywir yn y dyfodol. Roedd rheolwyr CDFfC wedi derbyn y ddau argymhelliad.

3.5 Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, ar yr amod na fyddai unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon hyd at ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol, a drefnwyd ar gyfer 22 Hydref 2025. Diolchodd y Cadeirydd i Julie Rees am ei hadroddiad.

3.6 Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru a swyddogion CDFfC am eu gwaith wrth gwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn derfynol a chyflawni canlyniad cadarnhaol. Gofynnodd y Cadeirydd i gopi o'r adroddiad Archwiliad o Gyfrifon gael ei anfon at Archwilwyr Mewnol CDFfC, sef MIAA. **Cytunwyd** y byddai copi'n cael ei anfon drwy e-bost at Gary Baines o MIAA.

3.7 Argymhellodd y Pwyllgor y dylai CDFfC gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a'u llofnodi, a chytunodd i lofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.

## 4. Unrhyw Fater Arall

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai sesiwn rheoli risg yn cael ei chynnal cyn cyfarfod y Comisiwn ar 29 Hydref am 9:30 a bod manylion ar gael yn y neges e-bost gan y Prif Weithredwr.